Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Jonathan Griffiths

Prif Swyddog – Gofal Cymdeithasol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Stryt y Lampint

Wrecsam

Dyddiad: 25/06/2026

Annwyl Jonathan Griffiths,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Archwiliad Sicrwydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Gofal Cymdeithasol i Oedolion.**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 27 Ebrill ac 01 Mai 2026. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

### 1.3 Pobl - llais a rheolaeth

- Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

- Pa mor dda y mae'r ymarferwyr yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr i ddiwallu anghenion pobl a gofalwyr?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod anghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

**Llesiant**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

- I ba raddau y mae'r systemau a'r arferion yn cefnogi asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sy'n amserol, yn gyson ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys cofnodi, monitro ac adolygu awdurdodiadau yn effeithiol?

**Partneriaeth**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

- I ba raddau y mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at y gwaith o gynllunio neu ddarparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn Wrecsam yn rheoli galw mawr ac anghenion cynyddol gymhleth ymhlith pobl. Mae heriau o ran recriwtio a chadw'r gweithlu yn parhau, ochr yn ochr â phwysau ariannol parhaus.

3.2 Mae'r arweinwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda i bobl a lle mae angen gwella canlyniadau, a'r blaenoriaethau yw cryfhau systemau, gwella'r defnydd effeithiol o ddata a sefydlu gweledigaeth strategol glir. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu adolygiad diagnostig er mwyn deall profiadau pobl yn well, gyda'r nod o wella canlyniadau, cryfhau cymorth ataliol, a rheoli'r galw mewn ffordd sy'n ymatebol i anghenion pobl.

3.3 Mae'r ymarferwyr a'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cyffredin i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae'r rhan fwyaf yn disgrifio diwylliant cadarnhaol wedi'i ategu gan arweinyddiaeth weladwy a chefnogol, ond nid yw hyn yn gyson ym mhob maes. Ar adegau, mae gwendidau wrth gyfathrebu ac anghysondeb wrth gymhwyso canllawiau yn arwain at amrywiad o ran y ffordd y mae pobl yn cael eu cefnogi ac yn yr ymarfer. Mae'r arweinwyr yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater, gan gynnwys ymgymryd â gweithgarwch adolygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth tecach a mwy effeithiol.

3.4 Mae gan yr awdurdod lleol ystod o wasanaethau ataliol ar waith i gefnogi pobl, ond mae oedi wrth gynnal asesiadau a darparu cymorth yn golygu nad yw rhai pobl yn cael help pan fydd ei angen arnynt. Mae arferion diogelu yn gadarn i raddau

helaeth, gan helpu i amddiffyn pobl rhag niwed, a dywed y staff fod y tîm diogelu yn hygyrch ac yn gefnogol. Gallai cryfhau'r arbenigedd sydd ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf wella'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir cyn gynted â phosibl.

3.5 Mae gwaith partneriaeth yn amlwg ar lefelau gweithredol a strategol, gan gyfrannu at gymorth cydgysylltiedig i bobl. Fodd bynnag, gall gwahaniaethau mewn rolau a chyfrifoldebau effeithio ar ba mor dda y mae asiantaethau'n cydweithio, yn enwedig mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus a chyfrifoldebau Adran 117.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Pobl

**Cryfderau**

4.1 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i roi pobl wrth wraidd y gwaith o gynnal asesiadau, cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau. Mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn disgrifio'n gyson bwysigrwydd gwrando ar bobl, deall eu hamgylchiadau unigol ac ymateb mewn ffordd sy'n dangos gofal a pharch.

4.2 Caiff barn a blaenoriaethau pobl eu nodi fel arfer drwy sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae'r cofnodion yn adlewyrchu safbwyntiau pobl gan ddefnyddio iaith glir, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn disgrifio canlyniadau sy'n bwysig iddynt, megis annibyniaeth, cynnal cydberthnasau ac ymdopi â'u trefn o ddydd i ddydd.

4.3 Mewn llawer o achosion, mae'r ymarferwyr yn adnabod y bobl a'u teuluoedd yn dda ac yn addasu'r cymorth pan fydd eu hanghenion neu'r risgiau'n newid. Mae'r Dirprwy Reolwyr Tîm yn cefnogi newidiadau amserol i gynlluniau gofal a chymorth. Ceir enghreifftiau effeithlon a chlir o arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar gryfderau ar draws y llwybrau gofal cymdeithasol i oedolion.

4.4 Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn disgrifio diwylliant cefnogol, ynghyd â rheolwyr ac arweinwyr sy'n weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Mae hyn yn cyfrannu at weithlu mwy sefydlog a hyderus sydd, yn ei dro, yn galluogi pobl i elwa o gydberthnasau a chymorth mwy cyson. Mae cymorth anffurfiol gan gymheiriaid a threfniadau gweithio hyblyg sy'n cael eu rheoli'n dda yn helpu i gefnogi llesiant y staff ac yn helpu i'w cadw yn y gweithlu.

4.5 Mae'r gweithlu'n brofiadol, yn fedrus ac yn sefydlog i raddau helaeth. Mae'r awdurdod lleol yn adolygu cynaliadwyedd y gweithlu ac yn cymryd camau i gryfhau hyn drwy ei raglen 'tyfu eich hun' a chymelliadau recriwtio wedi'u targedu. Fodd bynnag, mae heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, ac mae'r capasiti mewn rhai meysydd arbenigol yn fregus o hyd, gyda dibyniaeth ar rolau arwain interim. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod capasiti a sefydlogrwydd y gweithlu yn ddigonol i sicrhau y darperir gwasanaethau cyson.**

4.6 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i gefnogi gofalwyr di-dâl drwy wasanaethau wedi'u comisiynu a darpariaeth yn y gymuned. Caiff gofalwyr eu cefnogi i gael gafael ar wybodaeth, cyngor, eiriolaeth, a chyfleoedd i ymgysylltu, gan eu helpu i gynnal eu rolau gofalu. Mae gweithgarwch ymgysylltu, gan gynnwys grŵp gofalwyr, yn rhoi cyfleoedd i ofalwyr rannu eu profiadau a llywio datblygiadau i wasanaethau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol ac yn cyfrannu at gymorth gwell i ofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.**

4.7 Caiff yr ymarferwyr a'r rheolwyr eu goruchwylio'n rheolaidd. Dywed y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i arolwg AGC (87%) eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a bod hyn yn eu cefnogi i fyfyrio ar eu hymarfer. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r grwpiau goruchwylio cymheiriaid, sy'n hyrwyddo trafodaethau myfyriol a dysgu ar y cyd. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol gan ei fod yn cyfrannu at gymorth mwy meddylgar a chyson i bobl.**

4.8 Dywed mwyafrif yr ymarferwyr a gwblhaodd arolwg AGC (87.5%) fod cyfleoedd hyfforddi da ar gael iddynt. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif (12.5%) yn rhannu'r farn hon, a chafodd y canfyddiad hwn ei gadarnhau drwy drafodaethau â'r ymarferwyr. Mae hyn yn dangos nad yw'r cyfleoedd hyfforddi yn gyson ymhlith y staff. Gallai hyn effeithio ar ansawdd a chysondeb y cymorth y mae pobl yn ei gael. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei gynnig hyfforddiant i sicrhau ei fod yn hygyrch ac ar gael yn gyson i'r ymarferwyr a'r arweinwyr ym mhob maes gwasanaeth.**

4.9 Caiff eiriolaeth anffurfiol ei hyrwyddo, a chaiff teuluoedd a rhwydweithiau personol eu hannog i gefnogi pobl i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Comisiynir gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol, ac mae rhywfaint o dystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Caiff eiriolaeth ei hystyried fel mater o drefn wrth wneud penderfyniadau er lles pennaf pan fydd unigolyn yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a bydd cynrychiolydd a delir yn ymweld pan fo angen. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol am ei fod yn cefnogi pobl i aros wrth wraidd penderfyniadau am eu bywydau.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.10 Er bod yr awdurdod lleol yn glir ynglŷn â'i fwriad i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nid yw profiadau pobl yn gyson. Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod 65% o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a bod 68% yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn disgrifio anawsterau wrth ddeall eu hasesiadau a'u cynlluniau gofal. Maent hefyd yn cyfeirio at brosesau cyfathrebu gwael, ymatebion hwyr a diffyg dilyniant. Dywed dros hanner yr ymatebwyr nad ydynt yn cael cofnodion ysgrifenedig clir, sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus ac arfer dewis a rheolaeth. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth glir ac amserol bob amser am eu gofal a'u cymorth.**

4.11 Nid yw'r broses o gofnodi llais a chanlyniadau pobl yn gyson. Nid yw sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' bob amser yn cael eu cofnodi'n glir na'u hadlewyrchu mewn asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau, sy'n golygu nad yw blaenoriaethau pobl bob amser yn weladwy wrth wneud penderfyniadau. Mae rhai cofnodion yn canolbwyntio ar anghenion o hyd neu'n rhy ddisgrifiadol, yn hytrach na chofnodi'n glir yr hyn sy'n bwysig i bobl. Mae bylchau yn y cofnodion, gan gynnwys hepgor gwybodaeth allweddol, yn golygu na all yr awdurdod lleol ddangos yn gyson sut mae

ymarfer yn gwella canlyniadau. **Dylai'r awdurdod lleol wella ansawdd a chysondeb y broses gofnodi er mwyn sicrhau y darperir tystiolaeth glir o farn, canlyniadau a dealltwriaeth pobl ar bob cam.**

4.12 Er bod enghreifftiau cadarnhaol o eiriolaeth yn cefnogi pobl, dim ond ychydig o enghreifftiau a welsom o'i defnydd y tu allan i brosesau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod eiriolaeth yn cael ei hystyried, ei chynnig, ei derbyn a'i chofnodi'n rheolaidd, ynghyd â'r rhesymau dros hynny. Mae'r diffyg data yn golygu na all yr awdurdod lleol ddangos bob amser ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran eiriolaeth broffesiynol annibynnol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynnig a darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn rhan annatod o ymarfer, a bod tystiolaeth glir o hynny.**

4.13 Er bod sesiynau goruchwylio yn cael eu darparu'n rheolaidd ar y cyfan, mae eu hansawdd yn anghyson. Mae rhai o'r cofnodion yn ddisgrifiadol neu'n canolbwyntio ar dasgau ac nid ydynt yn dangos tystiolaeth o drafodaeth fyfyriol na'r effaith ar ganlyniadau pobl. Nid yw'r cofnodion bob amser yn dangos bod datblygiad a llesiant yr ymarferwyr wedi cael eu hystyried. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ansawdd a chysondeb y trefniadau goruchwylio er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi ymarfer myfyriol ac yn dangos tystiolaeth glir o'r effaith ar ganlyniadau pobl a datblygiad a llesiant yr ymarferwyr.**

4.14 Mae dadansoddiad o'r cwynion a'r pryderon yn dangos bod prosesau statudol yn cael eu dilyn a bod ymatebion yn cael eu darparu. Fodd bynnag, mae rhai o'r ymatebion ynghylch diogelu yn aneglur ac nid ydynt yn cynnwys canlyniadau dysgu na chymorth cyfeirio. Mae hyn yn cyfyngu ar allu pobl i ddeall yn llawn yr hyn sydd wedi digwydd a sut mae problemau wedi cael eu datrys, ac yn lleihau'r cyfle i ddysgu er mwyn gwella'r gwasanaethau. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion cwynion bob amser yn dangos tystiolaeth o ystyriaethau diogelu, deilliannau dysgu a chamau dilynol, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd a chefnogi gwelliannau i wasanaethau.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.15 Mae'r Gwasanaeth Rhyddhau Cyflym yn Gyflym yn cefnogi pobl i ddychwelyd adref yn brydlon gydag asesiadau a chymorth parhaus. Mae hyn yn lleihau achosion o oedi ac yn hyrwyddo annibyniaeth. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.16 Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cynnydd o ran datblygu darpariaeth byw â chymorth a darpariaeth yn y gymuned. Mae hyn yn galluogi pobl i ddychwelyd o leoliadau y tu allan i'r sir a chael cymorth yn nes at eu cartref, gan gynnal cysylltiadau â'u cymunedau a'u rhwydweithiau cymorth. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol am ei fod yn adlewyrchu'r galw a nodwyd, ac mae'n helpu i wella canlyniadau i bobl.**

4.17 Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i gynnal y gostyngiad yn y rhestr aros ar gyfer Therapi Galwedigaethol, ac mae'r niferoedd cyffredinol wedi lleihau ac wedi'u cynnal dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae trefniadau drws ffrynt cryfach a dulliau ataliol, gan gynnwys Clinig Therapi Galwedigaethol Cymunedol, wedi helpu pobl i gael cyngor a chymorth amserol, gan leihau'r angen am asesiadau tymor hwy. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir, ac yn hyrwyddo

annibyniaeth. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol ac yn dangos dull effeithiol o reoli galw drwy ymyriadau cynnar a chymorth ataliol.**

4.18 Mae'r Tîm Dilyniant yn darparu ymyriadau unigol a grŵp wedi'u targedu, sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda sgiliau bywyd bob dydd, cynhwysiant cymdeithasol a diogelwch. Dywedodd pobl wrthym fod y cymorth hwn yn ystyrlon ac yn gwella hyder ac annibyniaeth. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i gefnogi prosesau cydgynhyrchu a chynhwysiant, gan sicrhau bod pobl yn gysylltiedig â'u cymunedau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.19 Mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni statws Cymuned Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, gan ddangos ymrwymiad clir i atal a chreu cymunedau cefnogol a chynhwysol lle gall pobl fyw'n dda ac aros yn annibynnol am gyfnodau hwy. **Mae hyn yn arfer cadarnhaol gan fod yr awdurdod lleol yn ymdrin ag atal mewn modd strwythuredig sy'n cefnogi pobl i aros yn annibynnol am gyfnodau hwy.**

__**Meysydd i'w Gwella**__

4.20 Mae achosion o oedi wrth gael gofal a chymorth yn parhau ar draws sawl maes gwasanaeth. Mae galw parhaus a chapasiti cyfyngedig wedi arwain at ôl-groniadau ac amseroedd asesu hirach. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i gael cymorth amserol, yn enwedig yn achos pobl ag anghenion mwy cymhleth. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod capasiti a threfniadau'r gweithlu ar draws gwasanaethau allweddol yn ddigonol i alluogi pobl i gael gofal a chymorth amserol, gan leihau achosion o oedi a helpu pobl i gael cymorth ar yr amser cywir.**

4.21 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i gryfhau'r defnydd o ddata a gwybodaeth am berfformiad er mwyn deall y galw'n well, mesur canlyniadau a chefnogi gwelliannau parhaus i wasanaethau. Er bod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r prosesau sicrhau ansawdd, nid yw'r trefniadau presennol yn darparu goruchwyliaeth gyson a chadarn eto. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau ansawdd gwasanaethau a'u heffaith ar bobl yn llawn. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei ddefnydd o ddata a gwybodaeth am berfformiad, ac ymgorffori ei fframwaith sicrhau ansawdd yn llawn er mwyn gwella'r trefniadau goruchwylio a llywodraethu.**

4.22 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cadarnhaol i wella amseroldeb yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth, gan gynnwys creu capasiti ychwanegol. Fodd bynnag, mae heriau o hyd ac mae llawer o adolygiadau statudol sydd heb eu cwblhau, ac maent yn cael eu blaenoriaethu yn unol â lefel y risg. Pan nad yw adolygiadau'n cael eu cwblhau'n amserol, mae risg na fydd anghenion newidiol pobl yn cael eu nodi na'u diwallu'n briodol, a allai arwain at drefniadau gofal a chymorth ansefydlog. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn unol ag amserlenni statudol er mwyn monitro newidiadau a lliniaru'r risg hon.**

4.23 Mae'r defnydd o daliadau uniongyrchol yn anghyson. Er bod y defnydd ohonynt yn cynyddu, nid yw hyn wedi arwain at symudiad cynaliadwy oddi wrth wasanaethau traddodiadol a gomisiynir. O ganlyniad, efallai na fydd rhai pobl yn cael eu cefnogi'n llawn i arfer dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu gofal a'u cymorth yn cael eu trefnu. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r gwaith o hyrwyddo a chefnogi taliadau uniongyrchol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnig yn gyson a bod pobl yn**

**cael gwybodaeth a chymorth clir ynghylch sut i'w defnyddio fel dewis arall hyblyg yn lle gwasanaethau traddodiadol.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

4.24 Mae pobl yn cael eu diogelu, ac mae'r awdurdod lleol yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar y cyfan. Mae'r ymholiadau a wneir yn unol ag Adran 126(1) (a.126) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gynhwysfawr ar y cyfan ac yn cynnwys asiantaethau/unigolion eraill fel y bo'n briodol. **Ceir ffocws cryf ar amddiffyn pobl wrth i ymholiadau fynd rhagddynt, ynghyd â rhesymeg i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.**

4.25 Ceir tystiolaeth gref bod dull gweithredu amlasiantaethol ar waith ar draws y gwasanaeth cyfan i ddiogelu pobl. Caiff partneriaid perthnasol ac asiantaethau eraill eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth, ac mae enghreifftiau cyson o gyfraniadau amlasiantaethol yn cefnogi trafodaethau ac yn llywio'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau.

4.26 Mae lleisiau pobl yn gryf yn y cofnodion sy'n gysylltiedig â diogelu, a chaiff eu dymuniadau eu ceisio a'u canlyniadau personol eu cofnodi'n glir.

4.27 Dywedodd yr ymarferwyr a chynrychiolwyr asiantaethau partner ac asiantaethau eraill fod aelodau'r tîm diogelu yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol ac yn rhoi cyngor ac arweiniad hwylus. **Mae hyn yn cefnogi cyngor amserol, dysgu ar y cyd ac ymarfer diogelu cyson, gan gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i bobl.**

4.28 Dywed yr ymarferwyr a'r arweinwyr gofal cymdeithasol i oedolion fod gwelededd canlyniadau diogelu wedi gwella, gan gynnwys drwy ddangosfyrddau systemau a dogfennaeth cau achosion. Mae hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth a pharhad. Fodd bynnag, byddai esboniadau ysgrifenedig cliriach pan benderfynir peidio â bwrw ymlaen ag adroddiadau diogelu yn cryfhau'r broses ddysgu ymhlith ymarferwyr ac yn gwella cysondeb. **Dylai'r awdurdod lleol egluro'n gyson yn ysgrifenedig y rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen ag adroddiadau diogelu.**

4.29 Mae'r ymarferwyr a'r arweinwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud o ran eu bod yn cael gwybod am ganlyniadau adroddiadau diogelu a luniwyd, a bod y rhain hefyd i'w gweld ar ddangosfyrddau systemau neu ddogfennaeth cau achosion. Ceir enghreifftiau o atgyfeirwyr (ar wahân i ymarferwyr yr awdurdod lleol) yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad adroddiad diogelu a luniwyd ganddynt. Fodd bynnag, mae'r ymarfer yn anghyson. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr ac unigolion yn cael gwybod yn gyson am ganlyniadau adroddiadau diogelu, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a bod y cofnodion yn adlewyrchu hyn yn glir.**

4.30 Caiff galluedd meddyliol pobl ei ystyried mewn modd priodol. Er y nodwyd rhywfaint o anghysondeb yn ansawdd y cofnodion, mae'r ymarfer cyffredinol yn dangos bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael ei chymhwyso'n gyson. Ar y cyfan, mae'r broses o wneud penderfyniadau er lles pennaf yn gadarn, yn gytbwys ac yn cyd-fynd â chanllawiau statudol. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau o alluedd meddyliol bob amser yn cynnwys cofnod gair am air o ymatebion pobl, a gydnabyddir fel yr arfer gorau. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau o**

**alluedd meddyliol bob amser yn gadarn ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth glir, gan gynnwys cofnod clir o'r cwestiynau a ofynnwyd, y ffordd y cawsant eu cyflwyno, a sut yr ymatebodd pobl iddynt.**

4.31 Mae'r broses o wneud penderfyniadau er lles pennaf --yn adlewyrchu ymarfer meddylgar a chymesur, gyda'r ymarferwyr yn pwyso a mesur y risgiau a'r manteision yn glir yn unol â dull sy'n seiliedig ar hawliau.- Mae rhai o'r cyfarfodydd lles pennaf yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol ac aelodau o'r teulu er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyfforddiant wedi'i dargedu yn cefnogi'r ymarfer hwn ac yn hyrwyddo cysondeb, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles pennaf pobl.

**Meysydd i'w Gwella**

4.32 Ceir rhai enghreifftiau lle cafodd oedolion eu cefnogi'n dda a chafodd eu diogelwch a'u llesiant eu hyrwyddo. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn nid oedd yr oedolyn yn bodloni'r diffiniad o “oedolyn sy'n wynebu risg” yn llawn, a gellid bod wedi darparu cymorth yn briodol drwy drefniadau gofal a chymorth yn hytrach na gweithdrefnau diogelu. I'r gwrthwyneb, ceir enghreifftiau eraill lle rhoddwyd mesurau diogelwch priodol ar waith a chafodd risgiau eu lliniaru, ond gwnaed atgyfeiriadau at y tîm diogelu o hyd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod arferion diogelu yn cael eu cymhwyso'n gyson a dim ond pan fydd y diffiniad o oedolyn sy'n wynebu risg wedi'i fodloni'n llawn, fel y nodir yn adran 126(1) o Weithdrefnau Diogelu Cymru.**

4.33 Caiff ceisiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu prosesu mewn modd amserol, a chaiff pobl sydd heb alluedd eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hachos amddifadu o ryddid. Mae tîm pwrpasol yn yr awdurdod lleol yn darparu swyddogaeth goruchwylio ac yn cefnogi ymarfer cyson, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles pennaf pobl. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn nodi bod cydberthnasau gwaith cryf â Meddygon Adran 12[1], ynghyd â gweithgarwch ymgysylltu a hyfforddiant parhaus gyda darparwyr cofrestredig, yn ffactorau sy'n cyfrannu at asesiadau ac awdurdodiadau amserol. Fodd bynnag, mae argaeledd cyfyngedig meddygon Adran 12 yn parhau i fod yn her gydnabyddedig a gall effeithio ar amseroldeb pe bai'r galw'n cynyddu. Yn 2024–25, roedd yr awdurdod lleol ymhlith yr awdurdodau a oedd yn perfformio orau yng Nghymru, wedi iddo gwblhau 81% o'r asesiadau safonol o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o fewn yr amserlen statudol o 21 diwrnod. At ei gilydd, mae'r perfformiad yn rhoi sicrwydd bod y rhan fwyaf o bobl yn destun amddiffyniadau cyfreithiol priodol.

**Partneriaeth**

**Cryfderau**

[1]Ymarferwyr meddygol yw **Meddygon Adran 12** sydd wedi'u **cymeradwyo o dan adran 12(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983** gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu ei gorff cymeradwyo dirprwyedig) fel rhai sydd â **“phrofiad arbennig o ran diagnosio neu drin anhwylder meddwl.”**

4.34 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i wynebu heriau sylweddol a pharhaus wrth ddod i gytundeb â'r bwrdd iechyd mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus y GIG a darparu ôl-ofal o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r heriau hyn yn effeithio ar y gallu i ddarparu gofal a chymorth amserol i bobl ac yn cynyddu'r pwysau ariannol ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion ac, mewn rhai achosion, ar gyllid personol unigolion.

4.35 Mewn ymateb, mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu'n rhagweithiol drwy sefydlu tîm Gofal Iechyd Parhaus ac Adran 117 pwrpasol. Mae'r tîm hwn yn cefnogi'r broses o gymhwyso'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus yn gyson ac yn rhoi eglurder ynghylch cyfrifoldebau statudol priodol yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd o dan Adran 117. Mae'r ymarferwyr ar draws Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gwerthfawrogi'r tîm arbenigol hwn, gan ei fod yn dehongli deddfwriaeth mewn modd cyson, yn cefnogi proses gwneud penderfyniadau cyfreithlon, ac yn lleihau'r baich ar weithwyr cymdeithasol rheng flaen.- **Mae hyn yn cynrychioli ymarfer cadarnhaol, gan ei fod yn hyrwyddo canlyniadau cyson, amserol a seiliedig ar hawliau i bobl.** -

4.36 Ceir gwahaniaethau yn y ffordd y mae asiantaethau partner yn dehongli pryderon diogelu, ac nid yw rhai atgyfeiriadau at y pwynt cyswllt cyntaf yn gofyn am ymateb diogelu. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin a chysondeb drwy hyfforddiant amlasiantaethol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.37 Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, yn ogystal â fforymau eraill megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r cynllun gwasanaeth drafft sydd ar waith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.38 Nid yw adborth rhwng yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth asesu gofalwyr a gomisiynwyd bob amser yn amserol nac yn weladwy. Mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth gyffredin o ganlyniadau asesiadau ac yn oedi'r broses o ddarparu cymorth priodol i ofalwyr. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r cyd-drefniadau er mwyn sicrhau bod adborth yn dilyn asesiadau gofalwyr yn cael ei rannu'n gyson mewn ffordd amserol a gweladwy.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.39 Mae dogfen trothwyon wedi'i llunio i gefnogi llif effeithiol a sicrhau bod oedolion yn cael eu cyfeirio at y tîm mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson yn ymarferol. Mae rhai timau yn nodi bod modd camddehongli'r ddogfen o hyd, gan arwain at bobl yn cael eu trosglwyddo rhwng timau. Mae'r diffyg hwn o ran cymhwyso'n gyson yn cyfrannu at achosion o oedi cyn i unigolion gael cymorth amserol a phriodol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithiol.**

4.40 Mae trefniadau goruchwylio gan aelodau etholedig wedi'u sefydlu ac maent yn dangos cefnogaeth i ofal cymdeithasol i oedolion. Fodd bynnag, byddai her adeiladol bellach yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod gwelliant parhaus. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i gryfhau'r trefniadau, gan gynnwys gweithdai wedi'u cynllunio ar gyfer Aelodau'r Cyngor, er mwyn cefnogi prosesau effeithiol i graffu ar y gwasanaethau a ddarperir.**

4.41 Er bod tystiolaeth o arweinyddiaeth ragweithiol a dealltwriaeth glir o'r heriau o ran y gweithlu, mae elfennau o ddiwylliant a threfniadau sefydliadol y gwasanaeth yn dal i gael eu datblygu. Ceir arwyddion bod newidiadau blaenorol i'r trefniadau rheoli ac amrywiadau yn y strwythurau wedi effeithio ar hyder yr ymarferwyr ac ar gysondeb ymarfer mewn rhai meysydd. Yn ogystal, mae diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, swyddogaethau a llwybrau yn parhau i effeithio ar sut mae gwasanaethau'n gweithredu ar bwyntiau allweddol, yn enwedig o fewn Pwyntiau Mynediad Unigol. **Er bod camau'n cael eu cymryd i gryfhau prosesau ymgysylltu, trefniadau cynllunio'r gweithlu a llwybrau gofal, dylai'r awdurdod lleol weithio'n gyflym i sefydlu model gweithredu cyson a dealladwy sy'n galluogi'r ymarferwyr i gyflawni'n effeithiol.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 21 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 18 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain tri.

- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, yr ymarferydd, rheolwr yr ymarferydd a, lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

  Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 10 unigolyn sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr.

- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 43 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, pennaeth/penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol).

  Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.

- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Roedd angen y cynnig gweithredol ar yr achlysur hwn.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |